

**Adroddiad Blynyddol 2023/2024**

**Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu**

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

**Cwm Taf Morgannwg**



# Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
<b>Rhagair</b>	<b>3 - 4</b>
<b>Aelodau</b>	<b>5</b>
<b>Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg</b>	<b>6 - 7</b>
<b>Hyfforddiant</b>	<b>8</b>
<b>Y Flwyddyn Gyntaf</b>	<b>9 – 13</b>
<b>Y Diweddaraf am Waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b>	<b>14 - 15</b>
<b>Edrych i'r Dyfodol</b>	<b>16</b>

# Rhagair

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol cyntaf Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ar gyfer 2023-24 ers sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg. Roedd yn ffraind i fi gael fy mhenodi'n Gadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg am yr ail flwyddyn a dod â'r profiad a gefais i'n Gadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i'r pwyllgor sydd newydd gael ei sefydlu, a hynny gyda chymorth pwrpasol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Griffiths (Pen-y-bont ar Ogwr) fel Is-gadeirydd.

Bydd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg yn cefnogi dull mwy effeithiol o weithio ar y cyd i wella lles pobl yn ardal Cwm Taf Morgannwg. Er mwyn cefnogi'r trefniant newydd yma, cafodd gwaith paratoi ei gynnal i sicrhau bod y trefniadau craffu yn adlewyrchu'r un patrwm rhanbarthol (Cynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr) er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau trefniadau craffu effeithiol, gan arwain at sefydlu Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg.

Mae aelodau Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys pum Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol o bob Awdurdod, yn ogystal ag Aelodau 'Cyfetholedig' sy'n cynrychioli'r Bwrdd Iechyd Lleol, Cyngor Iechyd Cymuned a chynrychiolwyr dinasyddion o'r tri rhanbarth lleol.

O ran y trefniadau newydd, cafodd Aelodau a benodwyd i'r Pwyllgor hyfforddiant ym mis Medi 2023, cyn unrhyw gyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, er mwyn eu cefnogi nhw'n aelodau newydd o Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl diwygiedig. Rhoddodd yr hyfforddiant, a gynhaliwyd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gyfle i ddeall y rôl o ran craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a nodweddion gwaith craffu effeithiol gan bartneriaeth.

Mae adolygiad o drefniadau Cymunedau Diogel Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg hefyd wedi'i gynnal a'r argymhelliad oedd sefydlu Bwrdd Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf Morgannwg. O ystyried y ffaith bod y patrymau yr un peth a bod y Byrddau'n gysylltiedig â'i gilydd, roedd hi'n teimlo'n addas bod sylw yn cael ei roi yn y dyfodol agos i gynnwys y Bwrdd yma, ar ôl iddo gael ei sefydlu, yng nghylch gwaith y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Eleni, rydyn ni wedi darparu her i Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, **Mr M Brace**, a hynny gan ei fod yn mynychu cyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'n rheolaidd, ac rydyn ni'n ddiolchgar iddo am gyflwyno gwaith a chanolbwynt y bwrdd mewn ffordd agored a gonest. Ochr yn ochr â Swyddogion Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae'r Cadeirydd wedi rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i brif lwybrau ymholi gyda'r Pwyllgor. Mae cyfathrebu Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bendant wedi cryfhau'r broses graffu. Rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau i weithio'n agos gyda Chadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn nesaf.

Rwy'n hyderus y bydd y gwaith rydyn ni, a ninnau'n Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, wedi'i gynnal yn ystod y flwyddyn gyntaf yma'n gosod y seiliau ar gyfer yr hyn sydd ar y gweill o ran


sefydlu'r sylfeini i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ddod yn fodolau effeithiol yn ôl ein dymuniad. Rydyn ni'n edrych ymlaen at sicrhau trefniadau cydweithio da rhwng y sefydliadau er mwyn i hyn ddwyn ffrwyth. Eleni, cyflawnodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ei rôl o ran pwysau cyllidebol sydd ar wasanaethau cyhoeddus, hyrwyddo rhannu arferion da, cydweithio'n well a lleihau potensial dyblygu.

Hoffwn i estyn diolch i'r holl Aelodau, yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Simon Griffiths, Aelodau Cyfetholedig a Chynrychiolwyr Dinasyddion sy'n rhan o'r Pwyllgor am eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb. Hoffwn i ddiolch yn arbennig i Mr Mel Jehu, ac yntau'n Aelod Cyfetholedig gwerthfawr iawn, a roddodd y gorau i fod yn aelod eleni ar ôl cwblhau'i gyfnod gyda'r Pwyllgor.

**Y Cynghorydd D. R Bevan (Cadeirydd)**

# Aelodau Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg

## Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf



Y Cyng  
Robert  
Bevan



Y Cyng Jill  
Bonetto



Y Cyng  
Martin  
Ashford



Y Cyng  
Barry  
Stephens



Y Cyng  
Karen  
Morgan



Y Cyng Sheryl  
Evans  
AELOD  
DIRPRWYOL

## Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



Y Cyng  
Amanda  
Williams



Y Cyng  
Alex  
Williams



Y Cyng  
Simon  
Griffiths



Y Cyng  
Martin  
Hughes



Y Cyng  
Richard  
Granville



Y Cyng  
Freya  
Bletsoe  
AELOD  
DIRPRWYOL

## Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful



Y Cyng  
Claire Jones

## Aelodau Cyfetholedig

Mr Melvin Jehu	Bwrdd Iechyd Lleol
Mr Andrew Robinson	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ms Anita Lewis	Cynrychiolydd Dinasyddion RhCT
Mr Michael J Maguire	Cynrychiolydd Dinasyddion Merthyr Tudful
Ms Cheryl Board	Cynrychiolydd Dinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr

# Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cyflwyno diben cyffredin sy'n gyfreithiol rwymol er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal drwy gyfrannu at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd lesiant ar gyfrif cyhoeddus penodol, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, gwasanaethau tân ac achub a Chyfoeth Naturiol Cymru, i gymryd camau gweithredu ar y cyd trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae gofyn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wneud y canlynol:

- asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd (Yr Asesiad Llesiant);
- defnyddio'r asesiad hwnnw i bennu amcanion llesiant lleol (Y Cynllun Llesiant);
- cymryd camau gweithredu ar y cyd i fodloni'r amcanion hynny.

Ym mis Chwefror 2023, gyda'r bwriad o leihau achosion o ddyblygu a galluogi gwaith ar y cyd sy'n fwy effeithiol i wella llesiant pobl yn ardal Cwm Taf Morgannwg, unodd y ddau Fwrdd Gwasanaethau Lleol (Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr) i greu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg. Mae'r broses uno yma wedi galluogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyd-fynd â phatrwm y bwrdd iechyd, yn ogystal â chyd-daro ag uned reoli sylfaenol 'Morgannwg Ganol' Heddlu De Cymru.

Cafodd yr Asesiad Llesiant ei baratoi ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg a'i gynnal mewn cydweithrediad agos â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol trwy ddatblygu ei Asesiad Anghenion y Boblogaeth. Mae'r ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gweithio gyda'i gilydd ers mis Chwefror 2023 i ddatblygu Cynllun Llesiant ar gyfer rhanbarth Cwm Taf Morgannwg.

Yn rhan o'r dyletswyddau statudol sydd wedi'u rhoi ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac fel y nodir yng Nghanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, rhaid i Awdurdodau Lleol greu pwyllgor craffu dynodedig i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd. Yn ardal Cwm Taf Morgannwg, cafodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, sy'n cynnwys Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig nad ydyn nhw'n wleidyddol o awdurdodau lleol RhCT, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr, ei greu ym mis Mai 2023 i adlewyrchu patrwm rhanbarthol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd Cwm Taf Morgannwg.

Mae Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys 5 Aelod Etholedig o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu pob un o'r tri Awdurdod Lleol er mwyn craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol pob un o'r Pwyllgorau hynny, cyn belled ag y bo'n ymarferol.

### **SWYDDOGAETHAU CYDBWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF MORGANNWG**

Nod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yw craffu ar effeithiolrwydd cyffredinol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg.

Mae swyddogaethau statudol craidd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'n cynnwys:-

- Cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r Bwrdd sydd wedi'u gosod arno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys yn benodol fel ymgynghorai statudol ar gyfer:
  - Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
  - Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; a
  - Derbyn Adroddiad Blynyddol sy'n cynnwys manylion y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at fodloni amcanion llesiant lleol yn y Cynllun Llesiant
- Adolygu neu graffu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd neu'r camau y mae'r Bwrdd yn eu cymryd;
- Adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd;
- Paratoi adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu'i drefniadau llywodraethu;
- Ystyried materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd fel y gall Gweinidogion Cymru gyfeirio atyn nhw ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny; a
- Yn ogystal â'r swyddogaethau uchod, mae modd i Lwybrau Ymholi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gynnwys (ond heb eu cyfyngu), y canlynol:
- Effeithiolrwydd yr Asesiad Llesiant;
- Effeithiolrwydd y Cynllun Llesiant;
- Effeithiolrwydd trefniadau mesur cyflawniad;
- Lefel yr ymrwymiad gan bartneriaid unigol o ran gwaith y Bwrdd;
- Effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran cyfathrebu ei waith, amcanion a deilliannau i'w randdeiliaid; ac
- Effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth fynd i'r afael â'r mater o gyfuno cyllid er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau.

# Hyfforddiant

5 Medi 2023

Cafodd sesiwn hyfforddi ryngweithiol ei chynnal ar 5 Medi 2023 yng Nghanolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Aberpennar, Abercynon, cyn cyfarfod cyntaf y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 6 Hydref 2023. Cafodd y sesiwn ei chynnal gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac roedd yn canolbwyntio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cynnydd ehangach Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru a rôl ac amcanion Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, gan gyfeirio at ddeunyddiau i gefnogi gwaith y Cydbwyllgor.

Yn ogystal â rhoi cymorth a gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, roedd yn gyfle i ddod â'r Pwyllgor at ei gilydd mewn amgylchedd anffurfiol, er mwyn cwrdd am y tro cyntaf, gosod seiliau ar gyfer rhwydweithio pwysig a rhannu dulliau craffu ar draws y 3 rhanbarth, a rhoi cyfle i'r Pwyllgor fanteisio i'r eithaf ar arferion gwaith da i sicrhau gwaith craffu effeithiol ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Daeth nifer o aelodau i'r sesiwn hyfforddi ac fe wnaeth helpu aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i deall y saith Nod Llesiant a'r 'Pum Ffordd o Weithio', effaith hirdymor penderfyniadau yn ardal Cwm Taf Morgannwg, a sut i fynd i'r afael â phroblemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd, a hynny o safbwynt y Ddeddf. Cafodd pwyntiau pwysig eu codi er mwyn i bob awdurdod lleol sicrhau bod gan ei bwyllgor trosolwg a chraffu'r pŵer i: *'adolygu neu graffu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu'r camau y mae'r Bwrdd yn eu cymryd ac adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd'*. Rhagwelir bod yr hyfforddiant wedi helpu Aelodau i fod mewn sefyllfa well i allu asesu effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gweithredoedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ar gymunedau Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol a'i fod wedi dal eu sylw. Fe wnaethon nhw nodi ei fod wedi helpu i:

- Dod ag Aelodau at ei gilydd fel Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu newydd;
- Datblygu strategaeth ar gyfer gweithio'n effeithiol yn rhan o garfan;
- Deall sut mae modd iddo graffu'n effeithiol ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Cael dealltwriaeth glir mewn perthynas â sut bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'n gweithredu yn ystod Blwyddyn 2023/24 y Cyngor a thu hwnt;
- Cael dealltwriaeth glir o rôl a phwrpas y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu; a
- Deall sut mae modd i'r Cydbwyllgor wneud gwahaniaeth go iawn yn y gymuned.



# Y Flwyddyn Gyntaf...

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar rôl craffu yn nodi bod swyddogaeth graffu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei hannog i fod yn 'gyfaill beirniadol gyda bwriad cadarnhaol'. Hefyd, mae'n amlinellu bod ymarferwyr craffu yn gweithredu fel eiriolwyr ar gyfer llwyddiant gweithio ar y cyd.

Wrth ystyried hynny, mae egwyddorion craidd wedi cael eu sefydlu yn ystod blwyddyn gyntaf y trefniadau rhanbarthol, a'r nod y cytunwyd arno ar gyfer y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu oedd edrych ar 'sut' mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mesur ei lwyddiant ei hun o ran cyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Llesiant, yn ogystal â mabwysiadu dull rhagweithiol a chynnal gwaith 'rhag-graffu' fel bod y Pwyllgor yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau yn gynnar.

Mae ymgysylltiad a phresenoldeb Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, Mr M Brace, wedi bod yn allweddol i flaenraglen waith y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae wedi rhoi gwybodaeth amserol am waith a blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Cydbwyllgor. Mae rhannu gwybodaeth wedi bod yn allweddol i sail y broses graffu ac i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu o ran sicrhau bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dilyn y Pum Ffordd o Weithio a'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni'r Cynllun Llesiant.

Yn ei gyfarfod cyntaf ar 6 Hydref 2023, ac er mwyn nodi cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd a rhoi'r cyfle i aelodau Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fynegi eu barn ar ddatblygiad cynlluniau gweithredu'r dyfodol i gyflawni'r Cynllun Llesiant, rhoddodd Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, Mr M Brace, adroddiad cynnydd. Amlinellodd y Cadeirydd sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi defnyddio'r Aseiad Llesiant yn sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Llesiant drafft a sut roedd wedi cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r dystiolaeth wedi'i darparu gan gymunedau lleol a phobl yn ardaloedd Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr.

Yn dilyn y gwaith sylfaenol trwy'r aseiad llesiant, mae'r cynllun drafft yn ceisio rhoi gwybod sut y bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg yn gweithio i wella llesiant pobl sy'n byw yn y rhanbarth nawr ac i sicrhau dyfodol teg. Thema drosfwaol y Cynllun Llesiant drafft yw 'Cwm Taf Morgannwg sy'n fwy cyfartal', sy'n llywio pob agwedd ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Y nod y cytunwyd arno ar gyfer y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu oedd edrych ar 'sut' mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mesur ei lwyddiant ei hun o ran cyflawni dau amcan penodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sef:-

- Cymdogaethau Lleol Iach;
- Cymdogaethau Lleol Cynaliadwy a Chydnerth.

Rhoddodd y diweddariad yma gyfle i aelodau Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ystyried cynnydd y Bwrdd newydd,

a chysylltiadau â blaenoriaethau yn y dyfodol. Yn fwy arwyddocaol, mae'n nodi sut y byddai modd i Aelodau graffu mewn ffordd dda ac effeithiol drwy asesu 'sut' mae camau gweithredu'r dyfodol yn cael eu cyflawni, yn unol â'r Pum Ffordd o Weithio.

Datblygodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ei flaenraglen waith ei hun yn gyflym, gyda'r bwriad o graffu ar i ba raddau roedd partneriaid yn cydweithio ac yn deall y mesurau tactegol fyddai'n llywio'r gwaith ar y cyd hwnnw. Hefyd, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y deilliannau a chynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda phwyslais penodol ar y ddau amcan strategol fyddai'n llywio'r deilliannau a blaenoriaethau hynny. Byddai'r dull yma yn galluogi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i ddatblygu argymhellion yn seiliedig ar y deilliannau roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio i'w cyflawni, yn hytrach na'i allbwn e.e. i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried pa mor dda y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn datblygu'r manylion a pha mor dda y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys ei gymunedau.

Ar **24 Tachwedd 2023**, croesawodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu sefydliad Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, a roddodd drosolwg o'i waith gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn bennaf o ran cefnogi ei ganolbwynt ar 'gydweithio' a 'chynnwys' mewn perthynas â'i ddau faes gwaith presennol, sef 'Llais Pobl Ifainc yng Ngwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus' a'r cynllun gweithredu sydd wedi'i lunio gan Is-fwrdd Llesiant y Gweithlu. Hefyd rhoddwyd trosolwg o waith Is-fwrdd Llesiant y Gweithlu o safbwynt cyfrannu at y Cynllun Llesiant newydd.

Yn ystod ei brosiect 5 mlynedd a ariennir gan y Loteri Genedlaethol, mae Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn gweithio gyda thri chlwestwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i'w cynnwys mewn ffordd ystyrlon yn dilyn ymgysylltu, i ymgorffori ymddygiadau cyd-gynhyrchiol, ac i drawsnewid diwylliant sy'n rhoi cyfle i gynnig llais ar y cyd er mwyn dylanwadu ar newid gyda'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau a pholisïau.

Byddai Cynhadledd Lleisiau Pobl Ifainc, a oedd yn cynnwys tri choleg addysg bellach o'r rhanbarth ac a oedd wedi'i hanelu at bobl ifainc 16-19 oed yn bennaf, yn rhan sylfaenol o'r gwaith parhaus i gynnwys llais cenedlaethau'r dyfodol ac i ddylanwadu ar wella llesiant trwy waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Trwy'r rhwydwaith yma, rhagwelodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y byddai modd datblygu rhaglen ymgysylltu a chynnwys gyda phobl ifainc.

Yn dilyn ei lwybrau ymholi, roedd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn awyddus y byddai achlysur i bobl ifainc ym mis Tachwedd 2023, wedi'i gynnal gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i gefnogi gan brosiect Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, Dewi, yn arwain at ymgysylltu ehangach ac yn meithrin cyfle hirdymor i gynnwys pobl ifainc. Argymhellodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu fod y gwaith ar y cyd sy'n fwy penodol a'r dull mwy eang yma'n cael eu hymgorffori yng ngwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg. Gofynnodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu am wybodaeth amserol a pharhaus mewn perthynas â gwaith a chynnydd Is-fwrdd Llesiant y Gweithlu sydd wedi bod yn allweddol o ran ystyried y blaenoriaethau ar gyfer y cynllun llesiant newydd a nodi sut mae modd i'r Is-fwrdd ymateb orau o dan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol newydd.

Mae derbyn gwybodaeth am y ddwy ffrwd waith gychwynnol wedi galluogi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i wneud argymhellion mewn perthynas â meysydd fyddai'n cyfrannu at y ddau amcan llesiant, sef cymdogaethau lleol iach a chymdogaethau lleol cynaliadwy a chydnerth. Mae'r wybodaeth yma wedi galluogi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i fod yn effro i flaenoriaethau a pholisïau arfaethedig y Bwrdd, deddfwriaeth a phrosiectau'r flwyddyn nesaf, ac i'w deall nhw. Hefyd, o ganlyniad i hyn, mae'r Pwyllgor Craffu wedi gallu nodi a blaenoriaethu materion sydd o ddiddordeb arwyddocaol i'r cyhoedd neu sydd â goblygiadau posibl i'r cymunedau sy'n rhan o ranbarth Cwm Taf Morgannwg er mwyn eu cynnwys ar ei raglen waith ei hun, megis yr Aseiad Risg – Newid yn yr Hinsawdd.

Aeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ati i barhau i ddatblygu ei ddau amcan llesiant, yn ogystal ag amserlen ar gyfer llunio cynlluniau cyflawni yn erbyn yr amcanion, a hynny er mwyn helpu Aelodau i graffu ar **'sut'** mae'r Bwrdd yn cyflawni'r Cynllun Llesiant.

Yn ei gyfarfod ar **23 Chwefror 2024**, derbyniodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ddiweddariad mewn perthynas ag uno Partneriaethau Cymunedau Diogel yn ardal Cwm Taf Morgannwg, gyda bwriad i rag-graffu ar y cynigion wedi'u llunio gan y grŵp gorchwyl a gorffen, yn barod am uno'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel. Trwy dderbyn yr wybodaeth yma ac yn dilyn craffu ar y cynnig, roedd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn hyderus yn ei argymhelliad i gymeradwyo gwaith creu Partneriaeth Cymunedau Diogel ranbarthol, yn seiliedig ar yr adolygiad o drefniadau Partneriaethau Cymunedau Diogel.

Roedd y cynigion yn cynnwys:

- Strwythur ar gyfer Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf Morgannwg;
- Canolbwynt ar y gwaith strategol ar gyfer rhanbarth;
- Aelodau sy'n cynnwys uwch swyddogion y partneriaethau;
- Mecanweithiau adrodd ar gyfer strwythurau rhanbarthol presennol e.e. y Bwrdd Cynllunio Ardal a Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), yn ogystal â'r Ddyletswydd Trais Difrifol;
- Gwaith craffu ar y Bartneriaeth Cymunedau Diogel ranbarthol i'w gynnal gan Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol.

Dangosodd y trosolwg lefel uchel o'r Partneriaethau Cymunedau Diogel fod cynnydd ymhlith grwpiau strategol sy'n rhan o fframwaith Partneriaethau Cymunedau Diogel o ran mabwysiadu'r patrwm rhanbarthol. Arweiniodd hyn at adolygu trefniadau Partneriaethau Cymunedau Diogel ar gyfer y rhanbarth. Cafodd yr adolygiad ei gomisiynu gan Gyngor Rhondda Cynon Taf ar ran ei bartneriaid, a'i gynnal gan gwmni annibynnol, allanol.

Yn ogystal â'r cynigion a ddeilliwyd o waith y grŵp gorchwyl a gorffen i sefydlu Partneriaeth Cymunedau Diogel ranbarthol, argymhellodd adroddiad yr adolygiad y dylai trefniadau lleol priodol fod ar waith er mwyn craffu ar weithgarwch rhanbarthol,

ac er mwyn i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol graffu ar y Barneriaeth Cymunedau Diogel ranbarthol.

Croesawodd y Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu y gwaith rhag-graffu yma ar y cyd â swyddogion y Partneriaethau Cymunedau Diogel rhanbarthol ac yn dilyn trafodaethau adeiladol, cafodd y pwyntiau canlynol eu trafod:

- Er i'r Aelodau gefnogi'r cynigion, gofynnnon nhw am sicrwydd na fyddai'r broses uno yn arwain at wanhau gwasanaethau presennol, yn enwedig o safbwynt diogelu.
- Gofynnodd Aelod am eglurhad o ran sut y bydd y cynnig yn cyd-fynd â Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH).
- Gofynnodd Aelodau am sicrwydd y byddai gwaith ymgysylltu â phobl ifainc ac ysgolion yn parhau i fod yr un mor bwysig, er gwaethaf y nifer llai o Swyddogion Cyswllt Heddlu De Cymru ag Ysgolion.
- Gofynnodd Aelod hefyd am bwysigrwydd tegwch o ran mynediad at ddarpariaeth i fynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwasanaethau darpariaeth i bobl ifainc.
- Roedd Aelodau'n falch o glywed y byddai Partneriaeth Cymunedau Diogel ranbarthol yn rhoi hwb i economi'r Bartneriaeth, a hynny er gwaethaf y pwysau cyllidebol amlwg sydd ar bob un o'r tri Awdurdod Lleol, a fyddai'r dull rhanbarthol ddim yn newid y modelau cyflawni lleol presennol.
- Roedd Aelodau o blaid Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg yn craffu ar y gweithgarwch rhanbarthol ac aethon nhw ati i gydnabod y byddai'r trefniadau yn cael eu hadlewyrchu yng nghylch gorchwyl newydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

### **Asesiad Risg – Newid yn yr Hinsawdd**

Yn ystod Blwyddyn y Cyngor, rhag-graffodd y Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â datblygu asesiad risg – newid yn yr hinsawdd ar gyfer Cwm Taf Morgannwg. Canolbwyntiodd y gwaith yma ar ddwy o'r 'Pum Ffordd o Weithio' fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), sef cydweithio a chynnwys.

Ar ôl cynnal gwaith ymchwil ar astudiaethau presennol ac arferion da ym meysydd eraill, aeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ati i gaffael ymgynghorydd er mwyn cynnal asesiad risg – newid yn yr hinsawdd trwy ymgysylltu â sefydliadau partner, busnesau, grwpiau cymunedol a dinasyddion. Bwriad y gwaith ymchwil oedd nodi meysydd allweddol ar draws y rhanbarth o strategaethau presennol ac enghreifftiau o arferion da, blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer cymunedau Cwm Taf Morgannwg a chydabod sgiliau a gallu partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Gyda chymorth partneriaid, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi sefydlu grŵp gorchwyl gyda'r bwriad o asesu pryderon cymunedau ac ymgysylltu â grwpiau a rhwydweithiau lleol i fynd i'r afael â heriau newid yn yr hinsawdd.

Mae aelodau'r grŵp gorchwyl yma'n cynnwys:

- Arweinwyr Materion Newid yn yr Hinsawdd y tri Awdurdod Lleol,
- Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
- Rhwydwaith Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd RhCT,
- Cyfoeth Naturiol Cymru,
- Trafnidiaeth Cymru,
- Coleg Pen-y-bont ar Ogwr.

Cafodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu y cyfle i rag-graffu ar yr adroddiad a'i herio. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am waith cynnar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hyd yn hyn o ran sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gyda'r bwriad o ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid Cwm Taf Morgannwg i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer yr asesiad risg – newid yn yr hinsawdd (yn unol â Fframwaith Asesu Risg ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel y llunir gan Gyfoeth Naturiol Cymru).

- Gofynnodd Aelodau am sicrwydd y byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys cynrychiolwyr grŵp ehangach o randdeiliaid megis colegau ac ysgolion y tri Awdurdod Lleol, yn ogystal â cheisio barn sefydliadau gwirfoddol, y sector preifat, disgyblion a Phenaethiaid yn rhan o'r Asesiad Risg – Newid yn yr Hinsawdd er mwyn cryfhau cydweithio a chynnwys;
- Cyfeiriodd Aelod at y gwahaniaeth rhwng y GIG yn ceisio canoli a symleiddio gwasanaethau er effeithlonrwydd yn erbyn y pwysau i gael gwasanaethau lleol sy'n canolbwyntio ar gymunedau, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddefnydd ceir gan gleifion a theuluoedd cleifion. Dyma fater (lleoliad gwasanaethau) i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei drafod;
- Rhoddwyd gwahoddiad i Aelodau Craffu a rhoddwyd cyfle i aelodau'r Panel Craffu fod yn gynrychiolwyr ar grŵp Tasglu Asesiad Risg – Newid yn yr Hinsawdd.

Nododd Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sylwadau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r gwaith i gynnal asesiad risg – newid yn yr hinsawdd gyda chanolbwynt penodol ar gydweithio a chynnwys. Aeth Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ati hefyd i gydnabod teimlad cryf aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu bod angen ehangu'r ymgynghori a'r ymgysylltu i gynnwys cymaint o berspectif â phosibl. Byddai'r sylwadau yma'n cael eu rhannu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod nesaf ac â'r tasglu.

# ***Y diweddaraaf am waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg***

Yn ystod Blwyddyn y Cyngor, mae aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraaf mewn perthynas â chynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd. Mae hyn wedi eu galluogi i roi eu barn ar ddatblygiad cynlluniau gweithredu yn y dyfodol er mwyn cyflawni'r Cynllun Llesiant. O'r cychwyn cyntaf, mae'r wybodaeth ddiweddaraaf sydd wedi'i rhoi gan Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Mr M Brace, a hynny trwy adroddiadau a diweddariadau ar lafar, wedi galluogi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i roi adborth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â datblygiad ei gynlluniau gweithredu, gan roi sylw penodol i ddeilliannau, wrth ganolbwyntio ar y Pum Ffordd o Weithio, fel y trafodwyd yn y sesiwn hyfforddi gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 5 Medi 2023. Y bwriad yw cadw'r diweddariadau'n eitem sefydlog ar agendâu Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, a hynny er mwyn i'w aelodau dderbyn gwybodaeth amserol a pherthnasol am gynnydd gwaith parhaus Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg.

Hefyd, mae gwahodd Cadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg i gyfarfodydd penodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraaf am y gwaith craffu sydd wedi'i gynnal a'r argymhellion o ganlyniad i hwn, wedi helpu dull cydgysylltiedig ymhellach rhwng y ddau, a hynny er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cyflawni eu rolau'n briodol.

Cafodd y diweddariadau canlynol eu rhoi:

## **6 Hydref 2023**

### **Gosod Amcanion**

Ymgysylltu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â Chynllun Llesiant drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg sy'n ceisio rhoi gwybod sut y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio i gael gwared ar anghydraddoldebau i wella llesiant pobl sy'n byw yn y rhanbarth nawr ac i sicrhau dyfodol teg. Thema drosfwaol y Cynllun Llesiant drafft yw 'Cwm Taf Morgannwg sy'n fwy cyfartal', sy'n llywio pob agwedd ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r cynllun yn amlinellu dau brif amcan:

- Amcan Un – Cymdogaethau lleol iach
- Amcan Dau – Cymdogaethau lleol cynaliadwy a chydnerth

## **24 Tachwedd 2023**

### **Y Canolbwynt ar Gydweithio a Chynnwys**

Diweddariad gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â'i ffrwd waith bresennol a oedd yn cynnwys 'Llais Pobl Ifainc yng Ngwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus' a'r cynllun gweithredu sydd wedi'i lunio gan 'Is-fwrdd Llesiant y Gweithlu' wrth gryfhau'i ganolbwynt ar gydweithio a chynnwys. Cafodd gwybodaeth ei rhannu â'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ynglŷn â'r gweithdy a gynhaliwyd gan Is-fwrdd Llesiant y Gweithlu ar ei gyfraniad at y Cynllun Llesiant newydd a nodi sut mae modd i'r Is-fwrdd ymateb orau o dan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol newydd. Hefyd, gwybodaeth am waith ar y cyd â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr. Dyma brosiect a oedd yn cael ei ddatblygu, gan ddechrau gyda Chynhadledd Llais Pobl Ifainc ar 17 Tachwedd 2023.

## **23 Chwefror 2024**

### **Cynnydd yn erbyn yr Amcanion Llesiant**

Diweddariad ar lafar gan Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Mr M Brace, mewn perthynas â datblygiad Asesiad Risg – Newid yn yr Hinsawdd Cwm Taf Morgannwg (cafodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gyfle i rag-graffu arno). Cyfeiriwyd hefyd at ymgysylltu parhaus y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus â phobl ifainc, yn dilyn yr achlysur ym mis Tachwedd, a oedd wedi datblygu rhaglen lle mae modd i bobl ifainc roi safbwynt arall ar y gwasanaethau y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu darparu. Cafodd diweddariad ei roi mewn perthynas ag Is-fwrdd Llesiant y Gweithlu, a oedd wedi parhau i ddatblygu ei gynllun gweithredu. Roedd hefyd wedi ymrwymo i grwpiau gorchwyl yn ddiweddar mewn perthynas â phrofedigaeth, niwroamrywiaeth, yr argyfwng costau byw, cydlynu ymgyrchoedd o ran cyflogwyr Cyfeillgar i Faethu, a rhannu arferion da ar lwyddiant a buddion rhwydweithiau staff.

# *Edrych i'r dyfodol...*

*“Rhagofyniad i waith craffu llywodraeth leol effeithiol yw deall y diffiniad cyfreithiol o amcanion a'r egwyddor datblygu cynaliadwy”.*

Mae Blwyddyn 2023/2024 y Cyngor wir wedi bod yn flwyddyn lle mae cynllun cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn erbyn y ddau amcan llesiant yn y cam datblygu ac yn dilyn yr amserlen, sef:

## **Asesiad Llesiant (2022-27)**

- Wedi'i gyhoeddi

## **Cynllun Llesiant (2023-28)**

- Wedi'i gyhoeddi
- 2 Amcan Llesiant
- 5 Ymrwymiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn canolbwyntio ar ddatblygu manylion o ran sut y bydd ei bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni ei gynllun newydd, fel y mae Byrddau eraill yn ei wneud. Un o rolau craffu yw trafod adroddiad blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gwneud cynnydd yn erbyn amcanion y Cynllun Llesiant y cytunwyd arnyn nhw er mwyn ystyried effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gwahaniaethau sy'n cael eu gwneud. Rhoddir y cyfle yma i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu dros y misoedd nesaf gan y bydd ei drafodaeth am Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gosod sail ar gyfer nodi a thrafod materion cysylltiedig mewn perthynas ag effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at gefnogi blaenraglen waith y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer blwyddyn nesaf y Cyngor.

Bydd y flwyddyn i ddod yn dod â newidiadau a heriau, gydag aelodau newydd ar gyfer y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod blwyddyn nesaf y Cyngor, a hynny'n dilyn deilliannau Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol y Cynghorau unigol. Rwy'n gobeithio y bydd didwylledd Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a'i barodrwydd i ymgysylltu, yn parhau yn ystod blwyddyn nesaf y Cyngor gan fod hyn wedi galluogi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i sicrhau canolbwynt ar gyfer ei rôl, ei waith a'i gyfraniad.

Hoffwn i ddiolch unwaith eto i'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd S Griffiths, ac i swyddogion cymorth penodol o Gynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Diolch arbennig i Aelodau Cyfetholedig y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu am eu cyfraniadau a phroffesiynoldeb parhaus.

Diolch,

**D R Bevan (Cadeirydd 2023-2024)**